OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1357 (Cy.105)

LANDLORD A THENANT, CYMRU

Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Diwygio) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*17 Mai 2005*
Yn dod i rym - -	*31 Mai 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 20(4) a (5) a 20ZA(3) i (6) o Ddeddf Landlord a Thenant 1985(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Diwygio) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 31 Mai 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau

2. Diwygir rheoliad 4 (Cymhwyso adran 20 i gytundebau hir-dymor cymwys) o Reoliadau Taliadau Gwasanaeth (Gofynion Ymgynghori) (Cymru) 2004(**2**) —

(a) ym mharagraff (3), drwy roi yn lle "Yn" y geiriau "Yn ddarostyngedig i baragraff (3A), yn"; a

(b) drwy fewnosod, ar ôl paragraff (3), y paragraff canlynol -

"(3A) Os yw landlord —

(a) yn bwriadu ymrwymo i gytundeb hir-dymor cymwys ar neu ar ôl 31 Mai 2005; a

(**1**) 1985 p.70. Cafodd adran 20 ei hamnewid, ac adran 20ZA ei mewnosod, gan adran 151 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (p.15). *Gweler* hefyd baragraff 4 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno ar gyfer addasiadau sy'n berthnasol i adrannau 20 ac 20ZA sy'n ymwneud â'r hawl i reoli o dan Bennod 1 o Ran 2 o'r Ddeddf honno. Trosglwyddir swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 20 a 20ZA, i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2; *gweler* y cofnod yn Atodlen 1 i Ddeddf Landlord a Thenant 1985. *Gweler* hefyd adran 177 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002.

(**2**) O.S. 2004/684 (Cy.72).